# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Ebrill 2025

Archwilio Cymru
Audit Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Neges gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | 3 |
| Pwy ydym ni | 4 |
| Ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut rydym yn eu cyflawni | 5 |
| Gweithio gyda'n gilydd | 9 |
| Sut rydym yn cydlynu ein darpariaeth | 12 |
| Gweithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn | 17 |

# Neges gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

"Drwy gydweithio a chydgysylltu ein hymdrechion, ein gobaith yw dyfnhau'r newid yn niwylliant y gwasanaethau cyhoeddus lle mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i wneud penderfyniadau a chyflawni. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diweddaredig hwn yn adeiladu ar sawl blwyddyn o gydweithredu llwyddiannus, ac yn nodi sut y byddwn yn parhau i gryfhau'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd a'r effaith a gawn gyda'n gilydd yng Nghymru."



**Derek Walker**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

"Mae ein swyddfeydd wedi bod yn cydweithio'n agos ers creu rôl y Comisiynydd. Rwy'n falch o'r cydberthnasau sydd wedi'u meithrin ar draws ein sefydliadau a'r ffordd rydym wedi cyflawni ein haddewid i gydlynu ein gwaith. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn tystio i'r daith rydym wedi bod arni. Mae'n dangos ein hymrwymiad parhaus i fod yn gydgysylltiedig wrth gyflawni ein priod gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y gallwn helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu cyfrifoldebau nhw."



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Pwy ydym ni

## Archwilydd Cyffredinol Cymru[1]

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru . Mae hyn yn golygu ei fod yn archwilio cyfrifon cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, ei chyrff cyhoeddus hyd braich a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus. Mae ganddo hefyd gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), yn bennaf yn cynnal archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy o sut mae rhai cyrff cyhoeddus yn gosod amcanion llesiant ac yn cymryd camau i'w cyflawni. Ceir rhagor o wybodaeth am rôl yr Archwilydd Cyffredinol ar wefan Archwilio Cymru.

## Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau eu hunain. Mewn termau symlach, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd cyrff cyhoeddus Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r endid sy'n darparu staff ac adnoddau eraill i'r Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith archwilio.

Archwilio Cymru yw'r term cyffredinol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Creodd y Ddeddf rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd). Mae gan y Comisiynydd amrywiaeth o gyfrifoldebau, sy'n canolbwyntio ar ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor yr hyn a wnânt. Mae gan y Comisiynydd hefyd bwerau i roi cyngor a chymorth, cynnal ymchwil, adolygiadau, hybu ymwybyddiaeth ac annog arferion gorau. Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiadau Cenedlaethau'r Dyfodol, gan nodi eu hasesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant. Ceir rhagor o wybodaeth am y Comisiynydd a'i waith ar ei wefan.

1 Yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhaid iddo archwilio, ardystio ac adrodd ar gyfrifon y Comisiynydd. Nid yw hyn yn gysylltiedig â chydgysylltu swyddogaethau a ddisgrifir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

# Ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut rydym yn eu cyflawni

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol

1 Gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau o bob un o'r cyrff cyhoeddus a restrir o dan y Ddeddf. Mae'r archwiliadau hyn i'w cynnal at ddibenion asesu i ba raddau y mae'r cyrff hynny wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud y canlynol:

a. gosod amcanion llesiant; a

b. chymryd camau i fodloni'r amcanion hynny.

2 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio pob corff cyhoeddus o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Rhaid iddo wedyn osod adroddiad ar ganlyniadau'r arholiadau gerbron y Senedd o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad Senedd.[2][3][4]

3 Wrth gynnal archwiliad, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddir i'r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad o'r corff ac unrhyw argymhellion a wneir iddo gan y Comisiynydd. Rhaid iddo hefyd ymgynghori â'r Comisiynydd wrth gynnal yr archwiliadau.

## Sut mae Archwilio Cymru yn cyflawni cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol

4 Mae Archwilio Cymru yn gwneud gwaith ar wahân ar a). gosod amcanion llesiant a b). camau i gyflawni amcanion llesiant ym mhob corff cyhoeddus dros gyfnod o bum mlynedd.

2 Mae'r cyfnod adrodd yn dechrau flwyddyn cyn y mae etholiad i'w gynnal ac yn dod i ben ddiwrnod ac un flwyddyn cyn y dyddiad y cynhelir yr etholiad nesaf.

3 Bydd y cyfnodau adrodd presennol o bum mlynedd yn newid o ganlyniad i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno cylch etholiadol pedair blynedd o 2026 ymlaen, gyda newid dilynol i gyfnodau adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4 Ym mis Mehefin 2024 daeth wyth corff cyhoeddus ychwanegol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant, o dan adran 3 o'r Ddeddf. Felly, bydd yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal yr un archwiliadau o egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y cyrff hyn. Fodd bynnag, bydd y cyfnod adrodd ar gyfer y cyrff hyn yn ymestyn i 2029 (hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau uchod i gylchoedd etholiadol).

5 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod Archwilio Cymru:

- yn darparu rhaglen dreigl o archwiliadau o osod amcanion llesiant mewn cyrff unigol. Mae'r amseriad a'r cyflwyniad ymarferol wedi'u teilwra i bob corff.
- yn darparu archwiliadau o gamau i fodloni amcanion llesiant, mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r archwiliadau hyn yn aml yn cael eu hintegreiddio ochr yn ochr â gwaith archwilio a gynlluniwyd i gyflawni dyletswyddau statudol eraill, naill ai fel rhan o raglenni archwilio lleol neu astudiaethau gwerth am arian.[5] Lle nad yw hyn yn wir, mae Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy pwrpasol.

6 Yn dilyn pob archwiliad, mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi allbwn ar gyfer y corff. Gweler y rhain ar wefan Archwilio Cymru.

7 Adroddir ar ganlyniadau'r archwiliadau hyn drwy adroddiad statudol, pum mlynedd i'r Senedd. Gweler yr adroddiad diweddaraf hwn ar wefan Archwilio Cymru.

**Cyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

8 Dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd o dan y Ddeddf yw:

a. hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn benodol:
   i. gweithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion;
   ii. annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith dymor hir y pethau maent yn eu gwneud; a
b. monitro ac asesu at y diben hwnnw i ba raddau mae amcanion llesiant a gafodd eu gosod gan gyrff cyhoeddus yn cael eu bodloni.

5 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau a dyletswyddau helaeth i archwilio cyrff cyhoeddus o dan ddeddfwriaeth heblaw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mwyn effeithlonrwydd, lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn briodol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei bwerau a'i ddyletswyddau gyda'i gilydd, er mwyn lleihau dyblygu. Yn benodol, mae staff yr Archwilydd Cyffredinol ac Archwilio Cymru yn cynnal yr archwiliadau o egwyddorion datblygu cynaliadwy fel rhan o astudiaethau gwerth am arian a rhaglenni archwilio lleol sydd eisoes ar waith i gyflawni dyletswyddau presennol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth arall (Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn bennaf) mewn cyrff GIG a llywodraeth leol. Yn Llywodraeth Cymru, caiff yr arholiadau eu hymgorffori mewn astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn hefyd yn cynnal archwiliadau mewn cyrff eraill drwy ein hastudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

9 Wrth ymgymryd â'r ddyletswydd gyffredinol hon, mae gan y Comisiynydd ystod o bwerau, gan gynnwys:

- **darparu cyngor neu gymorth, codi ymwybyddiaeth ac annog arferion gorau**. Gellir cyfeirio hyn at gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Caiff y Comisiynydd hefyd roi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy.
- **cyflawni ymchwil neu astudiaeth arall** i amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei hun.
- **cynnal adolygiadau** i'r graddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor pethau y mae'r corff yn eu gwneud o dan y ddyletswydd llesiant i gyflawni datblygu cynaliadwy. Wrth gynnal adolygiad, gall y Comisiynydd ystyried:
    - y camau mae'r corff wedi'u cymryd neu'n cynnig eu cymryd er mwyn bodloni ei amcanion llesiant;
    - i ba raddau mae'r corff yn bodloni ei amcanion llesiant; ac
    - a yw corff wedi gosod amcanion llesiant ac wedi cymryd camau i'w bodloni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

10 Gall y Comisiynydd wneud argymhellion fel rhan o adolygiad a rhaid iddo gyhoeddi adroddiad o adolygiad. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd ystyried unrhyw archwiliadau a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r adolygiad.

11 Rhaid i'r Comisiynydd adrodd ar ei asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i osod a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol). Fel yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd osod ei adroddiad cyn pob etholiad Senedd.

## Sut mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyflawni ei gyfrifoldebau

12 Mae'r Comisiynydd yn monitro ac yn asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni drwy ddadansoddiad cyfnodol, o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod adrodd o bum mlynedd. Mae hyn yn llywio cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus, yn ogystal ag Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

13 Mae'r Comisiynydd yn cynnal adolygiadau o dan Adran 20 o'r Ddeddf ar sail eithriad. Cynhaliwyd dau adolygiad hyd yma. Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiadau hyn a'r argymhellion dilynol ar wefan y Comisiynydd.

14 Mae'r Comisiynydd yn darparu amrywiaeth o gyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gan gynnwys:

- cyswllt a chyngor ad hoc;
- hyfforddiant a digwyddiadau;
- casglu a rhannu astudiaethau achos;
- cynhyrchu ymchwil;
- cyhoeddi offer, cyngor a chanllawiau;
- cefnogi cyrff i fyfyrio ar natur a graddau eu cynnydd trwy ddarparu mynediad i'r 'Gwirio Cynnydd Dull o Weithio' ar-lein; a
- rhoi cyngor i BGCau wrth baratoi eu hasesiadau llesiant a drafftio amcanion llesiant, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

15 Gall y Comisiynydd, wrth roi cyngor a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, godi materion a nodir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus i ddileu rhwystrau i roi'r Ddeddf ar waith yn briodol.

# Gweithio gyda'n gilydd

**Sut mae ein pwerau a'n dyletswyddau yn berthnasol**

16 Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn cyflawni swyddogaethau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r fframwaith atebolrwydd a ddarperir gan y Ddeddf. Mewn termau symlach, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol asesu 'sut' y mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a dilyn eu hamcanion llesiant, a rhaid i'r Comisiynydd asesu'r cynnydd y maent yn ei wneud tuag atynt.

17 Mae cydweithio'n bwysig oherwydd bod rhai swyddogaethau'n perthyn yn agos iawn i'w gilydd. Yn benodol, caiff y Comisiynydd gynnal adolygiadau sy'n ymdrin â'r un pynciau ag archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol, ond at ddibenion gwahanol. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos pa mor agos yw'r berthynas rhwng adolygiadau'r Comisiynydd ac archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol.

**Arddangosyn 1: cymharu adolygiadau ac archwiliadau**

**Adran 20 — Adolygiadau gan y Comisiynydd**

(4) Wrth gynnal adolygiad, caiff y Comisiynydd wneud argymhellion i'r corff cyhoeddus ynghylch—

(a) y camau mae'r corff wedi'u cymryd neu'n cynnig eu cymryd er mwyn bodloni ei amcanion llesiant; a

(b) sut i osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w bodloni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Adran 15 — Yr egwyddor datblygu cynaliadwy: Archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol**

(1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy—

(a) osod amcanion llesiant; a

(b) chymryd camau i fodloni'r amcanion hynny.

**Dadansoddiad cryno**

Mae'r ddwy swyddogaeth hyn yn ymwneud ag ystyried gosod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Yn achos y Comisiynydd, y diben yw gwneud argymhellion ynghylch camau a sut i osod amcanion a chamau. Yn achos yr Archwilydd Cyffredinol, y diben yw asesu i ba raddau y mae gosod amcanion a chymryd camau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gwneud argymhellion ac asesu yn wahanol ond yn ymarferol mae gweithgareddau sydd â chysylltiad agos.

18 Yn amlwg, heb gydgysylltu gofalus, mae tebygolrwydd o ddyblygu, a photensial o ddryswch ymhlith cyrff cyhoeddus. Datblygwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithio'n dda, i leihau'r risg honno ac er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol wrth gyflawni gweithgarwch perthnasol.

19 Mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf hefyd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd gydweithio i wneud y gorau o'u harbenigedd a'u swyddogaethau. Yn benodol, sut y byddant yn ystyried gwaith ei gilydd a thrwy ddarparu cyngor gan y Comisiynydd i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn disgrifio sut y byddant yn gwneud hynny'n ymarferol.

20 Yn ogystal, er bod rôl yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf yn canolbwyntio ar yr archwiliadau o egwyddorion datblygu cynaliadwy, mae Archwilio Cymru[6] yn cynnal gweithgarwch ehangach sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd. Mae hyn hefyd yn ysgogi'r angen am gydgysylltu y tu hwnt i'r swyddogaethau hynny a nodir o dan y Ddeddf.

21 Ymhlith y gweithgareddau yr ymgymerir â nhw gan ddefnyddio pwerau atodol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru mae'r Gyfnewidfa Arfer Da. Mae'r Gyfnewidfa Arfer Da yn darparu digwyddiadau a deunydd i rannu dysgu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn ystod archwiliadau ac archwiliadau eraill. Mae llawer o'r gwaith hwn yn sôn am faterion sy'n ymwneud â phwerau'r Comisiynydd i roi cyngor, hybu ymwybyddiaeth, ac annog arferion gorau.

22 Felly, gellir crynhoi'r ddau faes lle mae angen i'n sefydliadau gydweithio fel a) atebolrwydd a b) cyngor a rhannu arferion.

23 Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi'r ystod o weithgareddau a gyflawnwyd gan Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y byddant yn ceisio eu cydlynu wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

6 Mae swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol i gyrff cyhoeddus drwy gytundeb. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru bwerau atodol sy'n eu galluogi i wneud pethau y bwriedir iddynt hwyluso, neu sy'n atodol neu'n ffafriol i gyflawni unrhyw un o'u prif swyddogaethau.

**Arddangosyn 2: gwaith y byddwn yn ei gydlynu wrth gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf**

| Atebolrwydd | Rhannu cyngor ac arferion |
|---|---|
| **Archwilydd Cyffredinol Cymru** | |
| • Archwiliadau<br>• Adroddiad pum mlynedd statudol ar archwiliadau | • Cyfnewidfa Arfer Da |
| **Comisiynydd** | |
| • Ymchwil<br>• Adolygiadau<br>• Monitro ac asesu<br>• Adroddiad pum mlynedd statudol Cenedlaethau’r Dyfodol | • Offer a chanllawiau<br>• Dysgu a datblygu<br>• Cyngor ac argymhellion |

# Sut rydym yn cydlynu ein darpariaeth

## Atebolrwydd

**Mae Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymrwymo i gydlynu'r gwaith o gyflawni:**

- archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol.
- gweithgarwch monitro ac asesu ac adolygiadau'r Comisiynydd.
- paratoi eu hadroddiadau statudol bob pum mlynedd priodol.

**Gobeithio y bydd cydlynu ein cyfrifoldebau yn llwyddiannus yn arwain at:**

- eglurder i gyrff cyhoeddus ar ein rolau a sut y byddwn yn eu cyflawni.
- cysondeb yn ein dehongliadau o ddeddfwriaeth a'n disgwyliadau o ran sut y dylai cyrff cyhoeddus fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- osgoi dyblygu gweithgarwch asesu ac archwilio.
- gwneud y defnydd gorau o'n harbenigedd, ein hadnoddau a'n gwybodaeth ar y cyd er mwyn helpu'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd i gyflawni eu rolau priodol yn effeithiol.

**I gyflawni hyn, bydd Archwilio Cymru:**

- yn mgynghori â'r Comisiynydd ar raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n nodi'r meysydd ffocws ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig. Mae'r rhaglen waith yn ymgorffori archwiliadau a fydd yn cyflawni dyletswydd archwilio'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf yn ogystal ag astudiaethau gwerth am arian ehangach a gwaith archwilio perfformiad lleol.
- yn mgynghori â staff y Comisiynydd wrth gynnal archwiliadau unigol. Yn ymarferol, gall hyn olygu ymgysylltu ar wahanol gamau o archwiliad, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gallai, er enghraifft, gynnwys ymgynghori yn ystod y cam cynllunio a chwmpasu er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio'r archwiliad a datblygu meini prawf archwilio. Ar adegau eraill, caiff archwilwyr ymgynghori â staff y Comisiynydd fel rhan o'u gwaith casglu tystiolaeth yn ystod archwiliad. Bydd y broses ymgysylltu hon yn galluogi archwilwyr i nodi ac ystyried unrhyw gyngor neu argymhellion y mae'r Comisiynydd wedi'u gwneud i gyrff unigol.
- yn fwy cyffredinol, ceisio cyngor gan y Comisiynydd ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys drwy hyfforddiant, cyswllt rheolaidd, ac ar sail ad hoc.
- yn cysylltu â'r Comisiynydd wrth baratoi adroddiad statudol pum mlynedd yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhannu canfyddiadau ei archwiliadau er mwyn helpu i lywio asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Comisiynydd:**

- yn ystyried canfyddiadau archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol o'r broses o bennu amcanion llesiant wrth fonitro ac asesu cynnydd cyrff cyhoeddus tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.
- yn hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol ac ymgysylltu â staff Archwilio Cymru wrth gynnal adolygiadau o dan Adran 20. Mae'r adolygiadau hyn, fel archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol, yn ymwneud â gosod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Er mwyn osgoi dyblygu:
  - bydd y Comisiynydd yn cynnal adolygiadau ar sail 'eithriad', gan ddefnyddio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol i asesu risg a nodi a oes angen adolygiad.
  - gall gynnwys staff yr Archwilydd Cyffredinol ac Archwilio Cymru yn y gwaith o gwmpasu a chynllunio adolygiadau, ac fel arsylwyr drwy gydol y broses. Bydd hyn yn sicrhau bod y Comisiynydd yn nodi canfyddiadau ac argymhellion perthnasol a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn iddo allu ystyried yr archwiliadau o egwyddorion datblygu cynaliadwy a gwaith perthnasol arall fel y bo'n briodol.
- yn rhannu gwybodaeth a chyngor perthnasol â'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys:
  - arfer da wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn ôl yr angen.
  - canfyddiadau ymchwil a wnaed er mwyn helpu i ddeall problemau neu atebion wrth gyflawni amcanion neu nodau llesiant. Efallai y bydd y Comisiynydd hefyd yn gofyn am farn yr Archwilydd Cyffredinol wrth ddylunio ymchwil o'r fath, yn enwedig pan fo'n ymwneud â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- yn cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol wrth baratoi adroddiad bob pum mlynedd Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y Comisiynydd yn ystyried canfyddiadau archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol wrth benderfynu ar y gwelliannau y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn pennu a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Rhai enghreifftiau o sut rydym wedi gwneud i hyn weithio hyd yma…**

- rydym wedi cyfrannu at ddylunio deunyddiau a chanllawiau asesu ein gilydd. Mae hyn yn cynnwys matrics aeddfedrwydd y Comisiynydd a ‘dangosyddion cadarnhaol’ Archwiliad Cymru, sy’n llywio archwiliadau’r Archwilydd Cyffredinol.
- mae staff Archwilio Cymru wedi ymgysylltu â staff y Comisiynydd wrth gynllunio dulliau ar gyfer yr archwiliadau, gan gynnwys ar osod amcanion llesiant. Mae staff Archwilio Cymru hefyd wedi ymgysylltu â staff y Comisiynydd fel rhan o bob un o’r archwiliadau hynny. Mae’r Comisiynydd yn defnyddio’r canfyddiadau a’r argymhellion i lywio gwaith monitro ac asesu sut mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant.
- mae staff Archwilio Cymru wedi ymgysylltu â thîm y Comisiynydd wrth wneud gwaith perthnasol. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy, yn ogystal â gwaith arall a allai fod o ddiddordeb i’r Comisiynydd megis, er enghraifft, gwaith ar ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth.
- gwahoddwyd Archwilio Cymru i arsylwi fel rhan o’r ddau adolygiad adran 20 a gynhaliwyd hyd yma.
- mae Archwilio Cymru a staff y Comisiynydd i gyd wedi cyflwyno canfyddiadau o archwiliadau ac adolygiadau priodol i staff, gan rannu canfyddiadau ar draws sefydliadau.
- bu Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol yn gweithio’n agos ar gynhyrchu a chydlynu cyhoeddi eu hadroddiadau statudol priodol. Roedd hyn yn sicrhau bod y Comisiynydd yn gallu ystyried canfyddiadau archwiliadau’r Archwilydd Cyffredinol.
- mae staff y Comisiynydd wedi darparu hyfforddiant i staff Archwilio Cymru ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae staff Archwilio Cymru a staff y Comisiynydd wedi cynnal seminarau i rannu gwybodaeth ar draws y ddau sefydliad.

## Cyngor, cefnogaeth a rhannu arferion ar gyfer cyrff cyhoeddus

**Mae Archwilio Cymru a'r Comisiynydd yn ymrwymo i rannu gwybodaeth berthnasol a, y lle bo'n briodol, i gydlynu gweithgareddau sy'n ymwneud â'r canlynol:**

- cyngor a chymorth a ddarperir gan y Comisiynydd i gyrff cyhoeddus ac annog arferion gorau wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
- chyflwyno rhaglen waith y Gyfnewidfa Arfer Da i rannu arferion da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Gobeithio y bydd cydlynu llwyddiannus yr agweddau hyn ar ein gwaith yn arwain at…**

- dull cydgysylltiedig o hyrwyddo arferion da wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan osgoi dyblygu digwyddiadau a gweithgareddau cysylltiedig.
- cyrff cyhoeddus yn cael eglurder ynghylch sut beth yw cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn effeithiol. Bydd ganddynt hyder bod gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd ddehongliad cyson o'r hyn sy'n gyfystyr ag arfer da.
- gwneud y defnydd gorau o'n harbenigedd, ein hadnoddau a'n gwybodaeth ar y cyd er mwyn helpu'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd i gyflawni eu rolau priodol yn effeithiol.

**I gyflawni hyn, bydd Archwilio Cymru:**

- yn cynnwys y Comisiynydd wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglen y Gyfnewidfa Arfer Da o ddigwyddiadau 'dysgu ar y cyd'. Bydd hyn yn cynnwys ymwneud â chynllunio digwyddiadau perthnasol a gwahodd y Comisiynydd neu staff eraill i gyfrannu.

**Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Comisiynydd:**

- yn rhannu manylion enghreifftiau o arfer da a digwyddiadau perthnasol gydag Archwilio Cymru, gan eu cynnwys yn y datblygiad, fel y bo'n briodol.
- yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol wrth roi cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus.
- yn rhannu cyngor cyhoeddedig perthnasol a ddarperir i gyrff cyhoeddus ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gyda'r Archwilydd Cyffredinol, fel y bo'n briodol.

**Rhai enghreifftiau o sut rydym wedi gwneud i hyn weithio hyd yma…**

- mae'r Comisiynydd wedi sefydlu 'Rhwydwaith Sefydliadau Cefnogol', sy'n cynnwys y sefydliadau hynny sy'n darparu ystod o gymorth a chyngor i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ei nod yw galluogi cydgysylltu ac osgoi dyblygu a, lle y bo'n briodol, hyrwyddo cydweithredu. Mae'r Gyfnewidfa Arfer Da yn rhan o'r rhwydwaith, ac mae'r ddau dîm yn cydweithio'n rheolaidd ar hyfforddiant, digwyddiadau a deunyddiau.
- mae'r Comisiynydd a'r staff yn siarad yn rheolaidd mewn digwyddiadau'r Gyfnewid Arfer Da.

# Gweithredu ac adolygu’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn

**Cydlynu rheolaidd**

24 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a’r Comisiynydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Bydd cydgysylltu effeithiol y swyddogaethau priodol yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd hyn.

25 Mae yna gysylltiadau dynodedig ym mhob sefydliad, a fydd yn cysylltu’n rheolaidd, gan gynnwys mewn cyfarfodydd misol. Bydd staff yn trafod effeithiolrwydd sut mae’r ddau sefydliad yn cydweithio a chyfleoedd i gryfhau hynny yn ystod y cyfarfodydd hynny.

26 Bydd staff eraill yn cydweithio ar sail ad hoc, yn ôl yr angen.

**Adolygiad ffurfiol**

27 Bydd adolygiad ffurfiol o’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn 2026-27, yn dilyn etholiad nesaf y Senedd a phenodi’r Archwilydd Cyffredinol nesaf.

28 Bydd yr adolygiad yn cael ei gyflwyno os bydd newidiadau sylweddol i’r ffordd y mae’r Archwilydd Cyffredinol a’r Comisiynydd yn cyflawni eu priod swyddogaethau, fel y gallai newidiadau i’r Ddeddf eu hachosi.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales